**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**DYDD IAU, 29 MEDI 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Remote attendance meeting Dydd Iau, 29 Medi 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, David Coggins Cogan, Steve Copple, Alasdair Ibbotson, Ian Hodge, Paul Johnson, Gina Maddison, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Linda Thew, Arnold Woolley, ac Antony Wren.

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Ryan McKeown ar gyfer Ted Palmer

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Jean Davies a Roz Mansell

**YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Llywodraethu), Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 8. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorwyr Gillian Brockley, Rob Davies, Alasdair Ibbotson, Ryan McKeown, Linda Thew ac Antony Wren gysylltiad personol ag eitem rhif 4 ar y rhaglen: Newidiadau i Gyfansoddiad Cronfa Bensiynau Clwyd.

## 9. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 7 Gorffennaf 2022.

Cafodd y cofnodion eu cynnig yn gofnod cywir gan y Cynghorydd Ian Hodge a'u heilio gan y Cynghorydd Vicky Perfect.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 10. DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD CRONFA BENSIYNAU CLWYD

Wrth gyflwyno'r adroddiad rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) wybodaeth gefndir am Gronfa Bensiynau Clwyd. Dywedodd fod yr adroddiad yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad a Phrotocol y Bwrdd Pensiwn i:

- adlewyrchu'r cynnig mai Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yw'r uwch swyddog â chyfrifoldeb am gyflawni'r Gronfa Bensiynau'n weithredol, yn hytrach na'r Prif Weithredwr; a
- sicrhau bod y Cyfansoddiad yn adlewyrchu statws rheoli cronfa bensiynau fel swyddogaeth anweithredol yn llawn.

Roedd newidiadau achlysurol eraill wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r adroddiad.

Mynegodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson bryder ynghylch y cynnig mai Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd fyddai'r uwch swyddog â chyfrifoldeb am gyflawni'r Gronfa Bensiynau'n weithredol, yn lle'r Prif Weithredwr, oherwydd ei fod yn credu bod hyn yn dirprwyo awdurdod i lefel is. Mewn ymateb eglurodd y Prif Swyddog fod y Cyfansoddiad yn disgrifio pwy oedd â'r cyfrifoldebau a chan gyfeirio at dudalen 20 o'r adroddiad fel enghraifft, dywedodd fod y Cyfansoddiad hefyd yn amlinellu pwy fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau hynny. Bwriad y cynnig oedd rhoi mwy o eglurhad ynghylch cyfrifoldeb gweithredol.

Mewn ymateb i bryder arall a gododd y Cynghorydd Ibbotson, dywedodd y Prif Swyddog fod y Prif Weithredwr yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol gan ei fod yn Uwch Swyddog y Cyngor. Nid oedd dirprwyo i swyddogion wedi atal y Prif Weithredwr rhag gwrthod penderfyniadau pe bai angen gwneud hynny gan eithrio pan oedd gan swyddog swydd statudol a chyfrifoldebau penodol.

Ymatebodd y Prif Swyddog hefyd i'r cwestiwn a gododd y Cynghorydd Steve Copple ynghylch llwyth gwaith a chapasiti ac eglurodd fod Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd eisoes yn cyflawni'r swyddogaethau perthnasol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Antony Wren a'r Cynghorydd Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

Argymell y newidiadau a amlinellwyd yn yr Atodiad i Gyfansoddiad Cronfa Bensiynau Clwyd a Phrotocol y Bwrdd Pensiwn i'r Cyngor.

## 11. ADOLYGU TROTHWYON CAFFAEL AR GYFER DYFYNBRISIAU CYFLYM/DYFYNIADAU GAN GYFLENWR UNIGOL

Darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) wybodaeth gefndir ac eglurodd, o ganlyniad i gynnydd yng nghostau'r farchnad, fod y Gwasanaeth Caffael ar y cyd sydd wedi'i arwain gan Gyngor Sir Ddinbych wedi derbyn ceisiadau gan nifer o feysydd gwasanaeth i ymchwilio i'r dewis o godi'r trothwy ar gyfer un dyfynbris a defnyddio 'quick quotes'. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i atal y trothwy presennol o £10,000 a osodwyd yn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau i fwrw ati i brynu nwyddau, gwasanaethau neu waith, ar ôl cael un dyfynbris yn dangos gwerth am arian.

Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth i ddiwygio'r trothwyon presennol o £10,000 i £20,000 a osodwyd yn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau i fwrw ati i brynu nwyddau, gwasanaethau neu waith, ar ôl cael un dyfynbris a chaniatáu defnyddio nodwedd Quick Quotes ar system e-dendro 'Proactis' ar gyfer dyfynbrisiau hyd at £20,000 yn lle'r trothwy presennol o £10,000.

Gofynnodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson beth oedd lefel/graddfa'r swyddog lle gellid gosod dyfynbrisiau unigol ar gyfer prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith hyd at £20,000. Eglurodd y Prif Swyddog y byddai awdurdod priodol yn cael ei ddirprwyo i swyddog gan y Prif Swyddog ar gyfer y gwasanaeth perthnasol a fyddai'n amrywio yn ôl y portffolio cyfrifoldeb.

Dywedodd fod trothwyon penodol ar lefelau uwch yn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.

Gofynnodd y Cynghorydd David Coggins-Cogan am eglurhad o'r data yn adran 1.04 yr adroddiad. Dywedodd ei fod yn cytuno â chodi'r trothwy i £20,000 ond holodd a oedd angen atal y trothwy presennol o £10,000 a'i gynyddu i £20,000 hyd nes y byddai Rheolau'r Weithdrefn Gontractau diwygiedig yn cael eu cymeradwyo a'u cyhoeddi ymhen 12-18 mis. Ymatebodd y Prif Swyddog i'r pryderon a godwyd.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Steve Copple a'r Cynghorydd Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cefnogi atal y trothwy presennol o £10,000 a chynyddu i £20,000 hyd nes y cynhelir adolygiad llawn o Reolau'r Weithdrefn Gontractau yn unol â Deddfwriaeth newydd; a

b) Caniatáu defnyddio nodwedd Quick Quotes ar system e-dendro Proactis i gael dyfynbrisiau ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith hyd at £20,000 yn hytrach na'r trothwy presennol, sef £10,000.

## 12. CYLCH GORCHWYL TROSOLWG A CHRAFFU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr adroddiad ar y diwygiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Darparodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod y cylch gorchwyl presennol a'r newidiadau arfaethedig wedi'u nodi yn atodiadau'r adroddiad.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Ian Hodge ac eiliwyd gan y Cynghorydd Arnold Woolley

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn argymell y diwygiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i'r Cyngor

## 13. MEMBERS OF THE PUBLIC AND PRESS IN ATTENDANCE

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.40pm)

..................................................

**Cadeirydd**